

ENGLISH TO FOLLOW

16/05/25

Annwyl Deuluoedd Ysgol Glan Ceubal,

Er gwaethaf y rhybuddion storm ar ddechrau'r wythnos, mae'r haul wedi bod yn disgleirio'n fendigedig, ac rydym wrth ein bodd yn rhannu newyddion diweddaraf Ysgol Glan Ceubal wrth i ni orffen wythnos gyffrous arall!

Asesiadau Personol Cenedlaethol 🏠

Llongyfarchiadau i bob disgybl a gymerodd ran yn yr asesiadau cenedlaethol yr wythnos hon – gwnaeth pawb eu gorau glas ac roedd eu hymdrechion yn wirioneddol ysbrydoledig. Er gwaethaf prysurdeb y profion, rydym wedi bod yn paratoi'n frwd ar gyfer y Mabolgampau a'r Sioe – mae'r dysgu, tyfu a llwyddo yn dal i ddisgleirio ar draws yr ysgol!

Diwrnod Sbarc a Seren! ✨

Roedd yn bleser pur gweld gymaint o ddisgyblion wedi gwisgo fel arwyr o Gymru heddiw – o Gareth Bale i Charlotte Church, roedd Ysgol Glan Ceubal yn llawn sêr! Diolch i bawb am gymryd rhan gyda chymaint o frwdfrydedd a dychymyg.

Cefnogi ein teuluoedd 🤝

Rydyn ni'n deall bod y costau byw yn parhau i fod yn bryder gwirioneddol. Wrth inni gynllunio taith dosbarth a digwyddiadau arbennig, rydym yn ymrwymo i sicrhau bod profiadau yn gyfoethog ac yn fforddiadwy.

Os hoffech drafod unrhyw bryderon neu os oes angen cymorth arnoch, rydym yma i helpu – peidiwch ag oedi i gysylltu:

✉ ysgolglanceubal@cardiff.gov.uk ☎ 02920 626650

📅 Marciwch Eich Calendrau:

BORE YFORY 11YB : Taith Gerdded er cof am Tom Barrow

<https://www.tombarrowbrugadatrust.org/walk-for-hope> Taith hwyl, ffrindiau a theulu sy'n codi ymwybyddiaeth am Syndrom Brugada 🤍

Mai 19: Ail wythnos Asesiadau Personol Cenedlaethol

Mai 23 : Diwrnod dim gwisg ysgol. Gwisgwch eich hoff wisg a mwynhewch y diwrnod!

👛👛👛 Gellir gwneud cyfraniad gwirfoddol drwy ParentPay neu arian parod i gefnogi Cyfeillion ein hysgol.

Mai 26: Wythnos hanner tymor y Sulgwyn.

Llongyfarchiadau mawr i Hazel! Mi fydd ei gwaith celf rhagorol yn cael ei arddangos yn yr Eisteddfod Genedlaethol ym Mharc Margam dros wythnos y Sulgwyn.

Mai 28 : Parti Unsain Adran Ceubal yn cystadlu yn yr Eisteddfod Genedlaethol ym Mharc Margam. Pob lwc pawb!

Mai 31 : Cystadlaeth coginio – Mi fydd Florian yn mynd i gynrychioli Ysgol Glan Ceubal a'r Sir yn yr Eisteddfod Genedlaethol ym mharc Margam. Pob lwc i ti!

Mehefin 9 – BI 4 – 6 ymweld parc Ynysangharad a Lido Pontypridd.

Mehefin 9 – 13: Wythnos Lles

Mehefin 11: Mabolgampau Meithrin

Mehefin 12: Mabolgampau Derbyn i Flwyddyn 2

Mehefin 13: Mabolgampau Blwyddyn 3 i 6

Mehefin 15 (Sul): Perfformiad Meithrin i Flwyddyn 2 yn Tafwyl

Mehefin 19: Sesiynau criced a 'baseball' – Blwyddyn 3 i 6

Mehefin 23 – 27: Sesiynau beicio – Blwyddyn 6

Mehefin 30 – Gorffennaf 2: Taith breswyl Blwyddyn 4

Gorffennaf 2: Ymweliad y Meithrin

Gorffennaf 3: Diwrnod pontio pob dosbarth

Gorffennaf 4: Ymweliad CC2 (BI 2 a 3) a Fferm Coliers.

Gorffennaf 4: Ffair Haf

Gorffennaf 9: Taith Blwyddyn 1 i Techniquet

Gorffennaf 9: Taith y Dosbarth Derbyn i Fferm Cefn Mabli.

Gorffennaf 11: Sioe ddiwedd y flwyddyn – Blwyddyn 3 – 6 yn Ysgol Gyfun Glantaf. Drysau'n agor am 14:15 Sioe i gychwyn am 14:30.

Presenoldeb 🌸

Presenoldeb yr wythnos hon = 94% Ardderchog bawb!

Cadwch mewn cysylltiad 📱:

- Ymunwch a ClassDojo
- Instagram: @ysgolglanceubal

Diolch am eich cefnogaeth barhaus,

Cofion cynnes,

Siân Eleri Fudge

—

Dear Ysgol Glan Ceubal Families,

Dear parents and carers,

Despite the storm warnings at the start of the week, the sun has been shining beautifully, and we are delighted to share the latest news from Ysgol Glan Ceubal as we round off another exciting week!

National Personal Assessments 🏠

Congratulations to every pupil who took part in the national assessments this week – everyone did their very best, and their efforts were truly inspiring. Despite the busyness of the tests, we've been enthusiastically preparing for Sports Day and the Show – learning, growing and succeeding continue to shine across the school!

Sbarc and Seren Day! 🌸

It was a joy to see so many pupils **dressed as Welsh heroes today**—from Gareth Bale to Charlotte Church, our school was full of stars! Thank you for the **enthusiasm, imagination, and pride** shown by everyone who took part.

Supporting Our Families 🤝

We understand that the cost-of-living crisis remains a real concern. As we plan class trips and special events, we're committed to ensuring that experiences are enriching and affordable. If you would like to discuss any concerns or need support, we are here to help – please don't hesitate to get in touch:

✉ ysgolglanceubal@cardiff.gov.uk ☎ 02920 626650

📅 Mark Your Calendars:

TOMORROW MORNING 11AM : Walk for Hope – In memory of Tom Barrow
<https://www.tombarrowbrugadatrust.org/walk-for-hope>. A fun, family-friendly walk raising awareness for Brugada Syndrome 🤝

Mai 19: Ail wythnos Asesiadau Personol Cenedlaethol

May 23: Non-school uniform day. Wear your favorite outfit and enjoy the day! 🎒👕👖
A voluntary contribution can be made through ParentPay or cash to support our school Friends.

May 26: Whitsun half-term week.
Congratulations to Hazel! Her excellent artwork will be displayed at the National Eisteddfod at Margam Park during the Whitsun week.

May 28: The one voice choir Adran Ceubal is competing in the National Eisteddfod at Margam Park. Good luck everyone!

May 31: Baking competition – Florian will be representing Glan Ceubal School and the County at the National Eisteddfod at Margam Park. Good luck!

June 9 – 13: Wellbeing Week

June 9: Years 4 – 6 trip to Ynysangharad Park and Lido, Pontypridd

June 11: Nursery Sports Day

June 12: Sports Day – Reception to Year 2

June 13: Sports Day – Year 3 to Year 6

Sunday, June 15: Nursery – Year 2 performance at Tafwyl

June 19: Cricket & baseball sessions for Years 3 – 6

June 23 – 27: Year 6 cycling sessions

June 30 – July 2: Year 4 residential

July 2: Nursery visit to role play lane

July 3: Whole school transition day

July 4: PS2 (Year 2 and 3) visit to Colliers farm.

July 4: Summer Fair

July 9: Year 1 visit Techniquet

July 9: Reception Class to visit Cefn Mably farm

July 11: End-of-year show for Years 3 – 6 at Ysgol Gyfun Glantaf. Doors open 14:15, show to start at 14:30.

Attendance ✨

This week's attendance is at 94% - excellent work, everyone!

Stay Connected 📱:

- ClassDojo
- Instagram: @ysgolglanceubal

Thank you for your continued support,

Warm regards,

Siân Eleri Fudge